# CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR
# COFNODION CYFARFOD 13eg MAWRTH 2018

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Troedyraur ar nos Fawrth y 13eg yn Neuadd Coedybryn

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol** | Cyng Julie Davies | Cyng Roger Davies |
| | Cyng Emyr Wyr Jones | Cyng Maldwyn Lewis |
| | Cyng Llŷr Evans | Cyng Rhys Williams |
| | Cyng Eirian James | Cyng Mark Davies |

**Ymddiheuriadau** Cyng Owenna Davies a'r Cyng Evan John Jones

**Clerc** Eleanor Colbourne

**1. Derbyn ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cyng Owenna Davies a'r Cyng Evan John Jones.

**2. Cadarnhau cofnodion**

Cyn cadarnhau'r cofnodion nodwyd fod y Cynghorydd Sir wedi rhannu gwybodaeth ynglŷn â 'Ecoflex' a os oes angen rhagor o wybodaeth yna cysylltu ar y rhif ffôn canlynol 01545 572183.
Hefyd, roedd angen nodi ein bod wedi trafod y Comisiwn Ffiniau.

**3. Datgan diddordeb**

Datgelodd y canlynol ddiddordeb mewn eitem ar yr agenda sef trafod ceisiadau ariannol

- Cyng Rhys Williams – Aelod o Gapel Twrgwyn
- Cyng Llŷr Evans – Arweinydd C.Ff.I. Troedyraur, Aelod o Bwyllgor Cymdeithas Sioe Amaethyddol Dyffryn Teifi
- Cyng Maldwyn Lewis – Llywydd C.Ff.I. Troedyraur
- Cyng Julie Davies – Aelod o Bwyllgor Cymdiethas Sioe Amaethddol Dyffryn Teifi
- Eleanor Colbourne – Ysgrifenyddes Cymdeithas Sioe Amaethyddol Dyffryn Teifi

Arwyddwyd y ffurflenni perthnasol.

**4. Gwybodaeth yn codi o'r cofnodion**

- Dyluniwyd poster Casglu Sbwriel Cymuned. Cynigiodd y Cyng Mark Davies ddod â bagiau du ac roedd 'litter pickers' gan y clerc.
- Roedd angen gwirio Costau Etholiadol o £233.00 ar y praesept – angen gofyn a fyddai modd i ni dalu'r Cyngor Sir gyda siec o £233.00

**5. Materion y Cynghorydd Sir**

- Er gwybodaeth – nodwyd somiedigaeth y Cynghorydd Sir yn 'Tai Ceredigion' – roedd tŷ ym mhentref Rhydlewis, sydd yn eiddo i Dai Ceredigion, gyda dŵr yn mynd drwyddo. Mi ddaeth Dŵr Cymru allan i

weld y difrod. Roedd yn siomedig o agwedd Tai Ceredigion a hyd yn hyn nid oedd wedi derbyn ateb oddi wrthynt.

- Hysbyswyd y cyngor cymuned o drafferthion defaid a chreaduriaid eraill ar y ffordd o amgylch Capel Hawen. Mae'r heddlu ar Adran Iechyd Anifeiliaid yn ymwybodol o'r sefyllfa. Mae'r creaduriaid ar y ffordd yn gyson. Mae'r ddaear perthnasol yn cael ei rhentu ond fod perchennog yn gwybod.
- Pentref Maesllyn – roedd cyflwr yr hewl wedi ei ail wneud ond cafwyd wybod ei bod yn mynd i gael ei ail wneud. Roedd y Cyng Roger Davies yn siomedig bod yr hewl mewn cyflwr mor wael.
- Bagiau ailgylchu – roedd y Cynghorydd Sir wedi derbyn cwyn am gyflwr y bagiau ailgylchu newydd. Awgrymodd y byddai'n syniad fod llythyr o'r Cyngor Cymuned yn cael ei anfon i'r Cyngor Sir yn cwyno am y bagiau a dweud hefyd ein bod yn casglu sbwriel yn y gymuned.
- 'Mid Wales Partnership for growing the Economy' yn rhedeg o'r Trallwng ym Mhowys lawr i Geredigion
- Cyngor Sir Ceredigion yn cefnogi Eisteddfod Genedlaethol 2020.

**6. <u>Gohebiaeth</u>**

- Melanie Johns, Cadwch Gymru'n Daclus – trafod yr ohebiaeth yma.

**7. <u>Ariannol</u>**

- Talwyd y canlynol
  - Treth y Clerc - £87.60
  - Tâl y Clerc - £350.02
  - Neuadd Coedybryn - £32.00
  - Neuadd Rhydlewis - £24.00
  - Neuadd Ffostrasol - £24.00
- Ceisiadau ariannol – ar ôl trafod pob cais yn unigol, penderfynwyd gyfrannu at y canlynol:-
  - Eglwys St Michaels - £150.00
  - Eisteddfod Gadeiril Rhydlewis - £150.00
  - Cymdeithas Sioe Dyffryn Teifi £150.00
  - Clwb Snwcer Rhydlewis - £150.00
  - Neuadd Bentref Rhydlewis - £150.00
  - Eglwys St Cynon - £150.00
  - C.Ff.I. Troedyraur - £150.00
  - Capel Twrgwyn - £150.00
  - Cyngor ar Bopeth Ceredigion - £150.00

**8. <u>Diffibriliwr</u>**

Roedd y clerc wedi derbyn prîs dau beiriant a dau focs oddi wrth Julian Evans, fel â ganlyn - £850 y peiriant a £324 am focs. Nododd y clerc fod Julian Evans wedi dweud fod Calonnau Cymru ar hyn o bryd yn araf yn dosbarthu peiriannau. Penderfynwyd i'r clerc gysylltu gyda Emyr Jones o Gastell Newydd Emlyn i ofyn iddo ef am brîs.

**9. <u>Adborth Cyfarfod Cynllunio</u>**

- Ymgynghoriad Rheoli Datblygu – dosbarthwyd dogfen a dderbyniodd y clerc oddi wrth Catrin Newbold yn dilyn y cyfarfod cynllunio. Hefyd,

roedd y Cyng Rhys Williams wedi paratoi taflen yn nodi'r newidiadau. Roedd tri ffordd o ymateb i geisiadau cynllunio sef – Portal Cynllunio, Ateb yn uniongychol neu ateb @ planning.

- Ymghynghoriad ar Rifyn 10 Polisi Cynllunio Cymru – y ddogfen ymgynghori yn amgaeedig ond gellir lawrlwytho y ddogfen ei hun.

**10. <u>Cyfansoddiad gan gynnwys Asesiad Risg</u>**

Penderfynwyd adael y drafodaeth ar y cyfansoddiad a'r asesiad risg tan y cyfarfod nesaf.

**11. <u>Diogelu Data (GDPR)</u>**

Penderfynwyd adael y drafodaeth ar ddiogelu data tan y cyfarfod nesaf

**12. <u>Cynghorydd newydd</u>**

Derbyniwyd wybodaeth fod un aelod o'r gymuned wedi dangos diddordeb. Roedd y clerc hysbysiad ynglŷn â cyfethol. Credai'r cynghorwyr yn gryf byddai'n dda o beth petawn yn derbyn cais oddi wrth aelod o gymuned Rhydlewis.

**13. <u>Templed Cofnodion</u>**

Penderfynwyd trafod yr eitem yma yn y cyfarfod nesaf.

14. **<u>Eitemau i'w trafod yn y cyfarfod nesaf</u>**

| | | |
|---|---|---|
| Gwefan | Diffbriliwyr | Cyfansoddiad |
| Diogelu Data | Templed Cofnodion | Cynghorydd Newydd |

**15. <u>Dyddiad, lleoliad ac amser y cyfarfod nesaf</u>**

Fydd y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, 3ydd Ebrill, 2018 yn Neuadd Rhydlewis am 7.30 y.h.